# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2011

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Eric Jones, G.W. Roberts, OBE, J.P. Williams, Selwyn Williams |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio (JF)<br>Uwch Archwilydd Mewnol (EW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jim Evans, R. Llewelyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Mr James Quance (Uwch Reolydd Ymgysylltiad PWC) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod diwethaf o’r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2010, fel yr ymddangosant yn Nhudalennau 39-46 Cyfrol Cofnodion Chwarterol y Cyngor Sir ar gyfer Mawrth, 2011.

Yn codi –

**Eitem 6 – Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru – Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gais y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf am wybodaeth ynghylch costau cynnal y sesiynau cyhoeddus Hawl i Holi, dywedodd y byddai’n ceisio sicrhau bod Aelodau’n cael y wybodaeth hon erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**3 GWELLA’R PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cyflwynwyd er sylw’r Aelodau ac i’w gymeradwyo ganddynt – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) ynghylch camau a gymerwyd a chynnydd a wnaed i wella swyddogaeth a gwaith y Pwyllgor Archwilio fel rhan o Gynllun Adfer yr Awdurdod yn dilyn beirniadaeth benodol o’r Pwyllgor yn yr adroddiad ar Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009. Roedd y dogfennau isod ynghlwm wrth yr adroddiad –

- Gwybodaeth ar ffurf graffiau pry cop yn Atodiad A, ynghylch canlyniad ymarfer hunanasesu 2011 yn adeiladu ar yr hunanasesiad cychwynnol a wnaed yn Rhagfyr, 2009 yn unol â chyhoeddiad CIPFA : Canllawiau Ymarferol i Awdurdodau Lleol a fabwysiadwyd wedyn ym mis Ionawr 2010. Nodwyd Rheolaeth Fewnol ac Archwilio Allanol fel y prif feysydd yr oedd angen gwneud gwaith pellach yn eu cylch.
- Gwybodaeth ynghylch canlyniadau’r gweithdy a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2011 gydag aelodau’r Pwyllgor Archwilio yn erbyn y rhestr wirio hunanasesu o gymharu â’r llynedd.
- Cynllun Gweithredu diwygiedig yn codi o waith y Pwyllgor yn y gweithdy ym mis Chwefror a gynhaliwyd i sicrhau cynnydd pellach tuag at gydymffurfiaeth lle'r oedd hynny’n bosibl ac yn ddymunol.

Dygodd y Rheolwr Archwilio sylw at brif bwyntiau'r adroddiad a chyfeiriodd at gamau pellach yr oedd angen yn eu cymryd yn arbennig mewn perthynas â hyfforddiant parhaus mewn meysydd penodol er mwyn cyfrannu at y wybodaeth arbenigol y mae'n rhaid i aelodau Pwyllgor Archwilio, yn unol â chanllawiau arferion gorau, feddu arni. Soniwyd yn benodol am hyfforddiant mewn perthynas â datganiad cyfrifon, rheoli trysorlys a mynd i'r afael â thwyll a llygredd. Dygodd sylw at gwestiynau 6.5 a 7.2 yn y rhestr wirio hunanasesu a oedd yn ymwneud â disgwyliadau mewn perthynas ag arferion da ac y gellid cynnal cyfarfodydd preifat rhwng aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol ac er nad oedd y cyfarfodydd hynny yn 2010 wedi ychwanegu gwerth, dylai'r holl bartïon gydnabod bod modd trefnu cyfarfodydd o'r fath os oes angen. O safbwynt Mesur Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad, byddai'r Mesur fel y cafodd ei ddiwygio hyd yma yn gwneud Pwyllgorau Archwilio yn orfodol ond ni fyddant yn gwneud newidiadau sylfaenol i'r modd y mae'r Pwyllgor Archwilio yn gweithredu ac eithrio'r ffaith y byddai angen i aelodaeth y Pwyllgor gynnwys o leiaf un aelod cyfetholedig. Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof y dylai rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2011/12 gydnabod y bydd angen gwneud rhai newidiadau efallai yn unol â'r Mesur. Gwnaed y pwynt hefyd bod gwella'r Pwyllgor yn debygol o fod yn broses barhaus.

Cododd yr Aelodau nifer o faterion ar gynnwys yr adroddiad ac yn ystod y drafodaeth arno. Roeddynt yn bryderus ynglŷn â'r gyfres o ymatebion negyddol i'r cwestiynau hunanasesu yn adran 4 y rhestr wirio hunanasesu yn ymwneud â materion rheolaeth fewnol ac roeddynt yn awyddus i dderbyn arweiniad ynghylch yr hyn y gellid ei wneud i wella cydymffurfiaeth yn y meysydd hyn. Roeddynt yn pryderu'n arbennig ynghylch y pwyntiau negyddol dwbl ym mhwyntiau 4.3 a 4.4 yn yr ystyr nad yw'r Pwyllgor, yn seiliedig ar ei hunanasesiad ei hun ac fel rhan o'i waith yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y Datganiad o Reolaeth ac nid yw'n bodloni ei hun bod y system ar gyfer Rheolaeth Fewnol wedi gweithredu'n effeithiol drwy gydol y cyfnod adrodd ac ymhellach, nid oes darpariaeth yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer rhoddi sylw i'r ddau fater hyn. Roedd yr Aelodau'n teimlo y gallai hynny roddi'r argraff bod y Pwyllgor yn bod yn esgeulus mewn perthynas â'i gyfrifoldeb i orchwylio Rheolaeth Fewnol.

Ymatebodd y swyddogion trwy egluro mai'r amcan yw gwella'r broses lle mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei ddwyn at sylw'r Pwyllgor Archwilio, a'r bwriad eleni yw dod â drafft buan o'r Datganiad i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mai, ac yna dilyn trywydd y Datganiad o Reolaeth Fewnol drwy lwybrau rheoli a llwybrau democrataidd eraill er mwyn cyflwyno'r fersiwn derfynol i'r Pwyllgor cyn ei chyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r Datganiad yn ymwneud â'r rhan fwyaf o'r meysydd lle mae gwendidau'n fwyaf tebygol o gael eu canfod. Nid yw'r cwestiwn yn ymwneud ag effeithlonrwydd y system Rheoli Mewnol fel y cyfryw ond ynghylch ac a ydyw aelodau'n teimlo eu bod yn cael digon o sicrwydd drwy adroddiadau cynnydd a'r Datganiad Llywodraethu bod y system yn gadarn ac yn gwneud yr hyn y dylai. Mae'r ymatebion yn y tabl yn Atodiad B yn adlewyrchu asesiad yr aelodau eu hunain o'r sefyllfa; gall barn y swyddogion fod yn wahanol drwy ddweud bod y Pwyllgor yn sylfaenol yn cadw ar ben y fframwaith Rheoli Mewnol ar sail barhaol drwy'r broses o gyflwyno adroddiadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Bydd y Fframwaith Rheoli Risg, unwaith y mae wedi'i sefydlu, hefyd yn hwyluso'r broses hon drwy ddarparu gwybodaeth ynghylch a yw risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol ai peidio; fodd bynnag, oherwydd galwadau a phwysau eraill, nid yw'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro o'r farn bod sefydlu'r Fframwaith yn flaenoriaeth gorfforaethol y dylid rhoddi sylw iddi ar unwaith. O bersbectif y Gwasanaeth Cyllid, mae dyhead i weld y Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei weithredu ac er bod gwaith yn cael ei wneud i chwilio am adnoddau i symud ymlaen gyda rhan gychwynnol y gwaith o safbwynt dwyn ynghyd y gwahanol elfennau ar lefel gorfforaethol, mae llawer o waith ar ôl i'w wneud mewn perthynas â'r risgiau ar lefel gwasanaethau. Mae'r ddwy agwedd yn hanfodol i'r Fframwaith er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i risgiau gwasanaeth ynghyd â risgiau corfforaethol. Mewn perthynas ag archwilio allanol, er bod aelodau yn derbyn adroddiadau diweddaru'n rheolaidd, tueddir i adrodd ar broblemau sy'n gwneud i'r aelodau dybio nad yw'r meysydd yr adroddir arnynt yn gweithio'n iawn. Efallai y gallai'r gwasanaeth archwilio mewnol egluro rhagor ar hynny yn ei adroddiadau ac adrodd hefyd ar yr hyn sy'n mynd yn dda. Gan ymateb i eglurhad y swyddog, roedd yr aelodau yn dymuno nodi eu bod yn siomedig gyda'r oedi mewn perthynas â sefydlu Fframwaith Rheoli Risg oherwydd roeddynt o'r farn y dylai fod ymhlith blaenoriaethau'r Awdurdod oherwydd y caiff effaith ar nifer o feysydd ar draws yr Awdurdod. Cynigiwyd o'r herwydd y dylid gofyn i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ailystyried statws rheoli risg gyda golwg ar roddi blaenoriaeth gorfforaethol i'r mater hwn a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo ar ei gyfer.

Yn ogystal, dygodd yr aelodau sylw at yr Adolygiad Cymheiriaid o'r Gwasanaeth Cyllid a gomisiynwyd gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ac a gynhaliwyd ychydig fisoedd yn ôl gan arwain at gyhoeddi adroddiad drafft. Roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r Pwyllgor Archwilio fod yn ymwybodol o gynnwys yr adroddiad ac ar ôl trafod rhywfaint ar statws yr adroddiad o safbwynt ei bwrpas, ei gyhoeddi, ei gylchrediad a phwy ddylai ei ddarllen a sut neu os câi dymuniad y Pwyllgor Archwilio ei wireddu, cynigiwyd a derbyniwyd y dylid gofyn i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor ymholi ynghylch a fyddai'n briodol iddynt hwy gael gweld yr Adroddiad Adolygiad Cymheiriaid drafft a'u bod wedyn yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r trefniadau mewn perthynas â'r adroddiad.

**Penderfynwyd –**

- **Mabwysiadu canlyniadau'r hunanasesiad wedi'i ddiweddaru a'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad C yr adroddiad.**
- **Cydnabod y gellir trefnu cyfarfodydd preifat rhwng y Pwyllgor a'r Archwiliwr petai raid.**
- **Cynnwys y canlynol yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2011/12 :**
    - **Hyfforddiant gloywi ar y datganiad cyfrifon**
    - **Hyfforddiant gloywi ar Reoli'r Trysorlys**
    - **Gweithdy ar fynd i'r afael â thwyll a llygredd**
    - **Cymryd y camau sy'n ofynnol dan y Mesur Llywodraeth Leol**
    - **Adolygu ymhellach yr hunanasesiad ymhen blwyddyn**
- **Cofnodi siom y Pwyllgor Archwilio ynghylch yr oedi gyda rhoddi'r Fframwaith Rheoli Risg yn ei le a gofyn i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ailystyried statws Rheoli Risg gyda golwg ar ei wneud yn flaenoriaeth gorfforaethol a neilltuo adnoddau tuag at ei weithredu.**
- **Gofyn i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn holi'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ynghylch priodoldeb rhyddhau'r Adroddiad Adolygiad Cymheiriaid drafft ar y Gwasanaeth Cyllid iddynt ac adrodd yn ôl ar hynny i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn.**

## 4 ARCHWILIO MEWNOL

4.1 Cyflwynwyd i'r Pwyllgor eu hystyried a'u cymeradwyo – y Cynllun Strategol Archwilio Mewnol ar gyfer 2010/2013 a'r Cynllun Cyfnodol ar gyfer 2011/1012. Roedd yr adolygiad rhagarweiniol yn cyfeirio at yr amrediad o ddogfennau y cyfeiriwyd atynt wrth ddatblygu'r ddau gynllun ynghyd â'r broses asesu anghenion archwilio lle penderfynir ar y meysydd hynny y mae angen eu cynnwys. Ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad oedd y Cynllun Archwilio Mewnol Gweithredol Blynyddol ar gyfer 2011/12 a oedd yn nodi'r gwaith archwilio mewnol a gynlluniwyd ar gyfer 2011/12; yn Atodiad B cafwyd amlinelliad o'r adnoddau ac yn Atodiad C cafwyd y Cynllun Strategol ar gyfer 2010 i 2013.

Atgoffodd y Rheolwr Archwilio y Pwyllgor iddo gymeradwyo'r Cynllun Strategol ar gyfer 2010/11 i 2012/13 yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, 2010 a dywedodd wrth yr aelodau mai'r drefn arferol oedd ymestyn y Cynllun Strategol i sicrhau ei fod yn cynnwys y tair blynedd ar ôl y flwyddyn gyfredol ond oherwydd ansicrwydd yn yr Awdurdod ynghyd â thrafodaethau ynghylch cydweithio rhwng yr Awdurdodau o safbwynt darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Gwasanaethau cefnogol eraill, penderfynwyd cadw'r cynllun fel un tair blynedd am eleni. Y bwriad yn lle hyn yw datblygu'r Cynllun y flwyddyn nesaf pryd y bydd y prif risgiau wedi'u nodi ac yn fwy arwyddocaol, pryd y gobeithir y bydd y Fframwaith Rheoli Risg a'r Gofrestr o Risgiau Corfforaethol yn eu lle i fwydo'n ôl i'r Cynllun Archwilio Mewnol a fydd hefyd yn fodd o sicrhau bod adnoddau archwilio mewnol prin yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n cynrychioli'r risg uchaf i'r Awdurdod. Wedyn, gellir adrodd ar sicrwydd yn erbyn risgiau sy'n gyfarwydd i'r Rheolwyr a'r Aelodau drwy adolygiad o Gofrestrau Risg ar lefel gorfforaethol a lefel y gwasanaethau. O safbwynt yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y Cynllun, dygodd y swyddog sylw arbennig at y swydd Archwilydd Mewnol sy'n parhau i fod yn wag. Roedd Atodiad B yn amlinellu'r sefyllfa gyda'r nifer cyflawn o staff a'r sefyllfa os na fydd modd llenwi'r swydd wag. Gwnaed penderfyniad i ohirio penodi er mwyn gweld a fedrir ystyried recriwtio ymgeiswyr mewnol y mae eu swyddi mewn perygl yn y Cyngor. Yn y cyfamser, gellir prynu i mewn ddyddiau ychwanegol yn ôl yr angen. Gofynnodd y Swyddog i'r Pwyllgor ystyried wrth drafod yr adroddiad, a yw'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn adlewyrchu meysydd y dylid, ym marn yr Aelodau, roddi blaenoriaeth iddynt ac

a ydynt o'r farn bod lefel yr adnoddau archwilio yn ddigonol o ystyried lefel y sicrwydd sydd raid wrthi.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y cydnabyddir y cyfyngiadau ar yr adnoddau sydd ar gael i'r Cynllun Strategol Archwilio Mewnol a bod yr opsiynau ar gyfer ychwanegu at yr adnoddau yn y tymor byr hefyd yn gyfyngedig.  Fodd bynnag, y cyngor a roddwyd i'r Pwyllgor yw mai'r ffordd orau ymlaen yw'r hyn a gynigir yn yr adroddiad, sef parhau gyda phethau fel y maent am y tro a phrynu adnoddau ychwanegol i mewn lle mae hynny'n briodol.  Byddai hyn yn fodd o weithredu cynllun archwilio strategol sy'n cwrdd â'r gofynion yn nhermau darparu sicrwydd ar gyfer y Swyddog Adran 151, ac i bwrpas y Datganiad Llywodraethu ynghyd â darparu gwaith archwilio mewnol y gall y gwasanaeth archwilio mewnol dynnu ohono.  Cyngor y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) fel y Swyddog Adran 151felly yw bod yr adnoddau ar y lefel a nodir yn yr adroddiad yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn nesaf ond bod angen rhoddi sylw yn y chwe mis nesaf i'r ffordd ymlaen ar ôl hynny.

Gan gyfeirio at y swydd wag ar gyfer Archwilydd Mewnol ac effaith bosibl hynny ar gwrdd â gofynion y Cynllun Gweithredol a Strategol ac ar waith yr Uned Archwilio Mewnol ac wedi ystyried y mater a holi'r swyddogion, roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n well iddynt gadw golwg ar y sefyllfa drwy adroddiadau diweddaru chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio, yn arbennig felly gan gadw mewn cof y materion eraill sy'n berthnasol i'r sefyllfa hon megis sefyllfa'r awdurdod yn gyffredinol yn nhermau ailstrwythuro gwasanaethau a staffio a'r trefniadau sy'n esblygu ar gyfer gweithio ar y cyd.  Cadarnhaodd Mr Patrick Green, RSM Tenon nad yw llenwi'r swydd wag yn yr Adain Archwilio Mewnol yn fater brys i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwn a bod y gwasanaeth yn gallu gweithredu er gwaethaf y swydd wag.  Cytunodd mai adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor ar y mater hwn yw'r peth gorau i'w wneud yn yr amgylchiadau.

Mewn perthynas â'r Cynllun Archwilio Mewnol Strategol, gofynnodd aelodau am eglurhad ar y berthynas rhwng risg ac amlder adolygiadau archwilio yn wyneb y ffaith bod rhai meysydd y tybir eu bod yn risg uchel i fod i gael eu hadolygu unwaith bob tair blynedd a bod meysydd risg is eraill yn cael eu hadolygu ddwywaith neu ragor yn ystod y cyfnod hwnnw.  Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod rhaid adolygu rhai meysydd yn rheolaidd oherwydd gofynion penodol, er enghraifft grantiau LlCC.  Hefyd, mae angen sicrwydd ar y gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â'r 10 rheoliad ariannol allweddol a chaiff y rhain eu hadolygu'n flynyddol.  Tybir bod rhai meysydd yn risg uchel oherwydd eu bod yn newydd i'r system adolygu ac ni wyddys beth yw lefel y rheoliadau sydd yn eu lle.  Oherwydd nad oes cofrestr risg gorfforaethol ar gael, penderfynir ar gategori risg yn seiliedig ar y system archwilio mewnol, a'r ffactorau yw dyddiad yr archwiliad diwethaf a'i ganlyniadau, y risgiau sy'n gynhenid a'r gwerthusiad cyfredol o'r system.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn y Cynllun Strategol Archwilio Mewnol ar gyfer 2010/2012 a'r Cynllun Cyfnodol ar gyfer 2011/12 fel y cawsant eu cyflwyno.**
- **Gofyn i'r Rheolwr Archwilio gyflwyno adroddiadau diweddaru chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch effaith y swydd wag yn yr Adain Archwilio Mewnol ar berfformiad a'r angen i benodi i'r swydd honno.**

4.2 Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r aelodau – adroddiad cynnydd mewn perthynas â gwaith yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2010 i 24 Chwefror, 2011.  Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r agweddau isod ar y gwaith Archwilio Mewnol –

- Cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol i 25 Chwefror, 2011
- Cymharu gwaith archwilio gwirioneddol a gwaith archwilio a gynlluniwyd yn ystod y cyfnod a'r ffactorau a oedd yn gyfrifol am y methiant i wneud yr holl waith archwilio oedd wedi'i gynllunio yn y cyfnod hwnnw.
- Crynodeb a graddfeydd yr adroddiadau archwilio a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd.
- Amlinelliad o natur y gwaith ymchwilio arbenigol yr ymgymerwyd ag ef.
- Canlyniadau'r broses tracio argymhellion yn nhermau canrannau adrannol o weithredu ar argymhellion archwilio mewnol.  Yn seiliedig ar y data yn dilyn yr hunanasesiad yn y Tabl Cynnydd yn Atodiad A yr adroddiad, parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd rhesymol yn y cyswllt hwn yn ystod y cyfnod.
- Targedau Archwilio Mewnol ar gyfer 2010/11 a pherfformiad hyd yma.
- Argymhellion fesul gwasanaeth yn nhrefn dyddiad fel y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol – Atodiad C

Mater y soniwyd amdano'n fras yn y drafodaeth ddilynol oedd rheoli'r fflyd gerbydau ac yng nghyd-destun gwerth am arian a defnydd effeithiol o adnoddau, awgrymwyd y gallai adolygu'r trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r fflyd gerbydau fod o fantais er mwyn sicrhau eu bod yn gost effeithiol ac yn cynrychioli gwerth am arian.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

## 5 ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd i'r aelodau ei ystyried a chyflwyno sylwadau arno - adroddiad drafft yn amlinellu'r Archwiliad Ariannol gan yr Archwilydd Allanol PWC. Yn yr adroddiad, cafwyd eglurhad ynglŷn â'r gofynion ffurfiol mewn perthynas â gwaith archwilio ariannol, y dull archwilio, risgiau archwilio, y broses adrodd a'r amserlen ynghyd â lefel y ffioedd a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith. Mewn ymateb i anfodlonrwydd y Cadeirydd na chafwyd adroddiad ysgrifenedig mewn perthynas â'r broses o baratoi a chynhyrchu cofnodion 2010/11 yn unol â chais y Pwyllgor, ymddiheurodd Mr James Quance am yr amryfusedd y tro hwn a rhoddodd sicrwydd i'r aelodau y byddai adroddiad ysgrifenedig ar y mater ar gael i'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Mewn perthynas â'r amlinelliad uchod o'r Archwiliad Ariannol, dygodd Mr Quance sylw arbennig at y risgiau archwilio sylweddol fel y cawsant eu nodi yn y tabl ym mharagraff 16 yr adroddiad. Yn nhudalen 5 yr adroddiad, soniwyd am y risgiau a oedd yn benodol i Ynys Môn o safbwynt yr amgylchedd rheoli a'r systemau ariannol ynghyd â'r hyn y mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn bwriadu ei wneud i liniau'r risgiau hynny. Yn nhudalen 6 yr adroddiad, cafwyd manylion am y risgiau archwilio ariannol a oedd yn gyffredin i'r holl awdurdodau mewn meysydd sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cyfrifon a'r datganiadau ariannol. O safbwynt ffi archwilio 2010/11, dywedodd Mr James Quance ei fod yn dymuno pwysleisio'r rhagdybiaethau mewn perthynas â'r ffi o £155,000 (ynghyd â TAW) gan gynnwys y dybiaeth na fyddai'r problemau a gafodd y Cyngor wrth fynd drwy'r un broses eleni yn cael eu hailhadrodd.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ei bod yn fodlon gyda'r trafodaethau a gafwyd gyda PWC yn yr ychydig ddiwrnodau diwethaf a bod y rhain wedi cynnwys rhai agweddau ar y diffygion o safbwynt paratoi'r cyfrifon y llynedd ynghyd â chynhyrchu elfennau o'r strategaeth a fydd yn sicrhau na fydd y rhain yn cael eu hailadrodd eleni gan gynnwys gwella cyfathrebu ac adroddiadau mewnol ynghyd â chyfathrebu gyda'r archwilwyr. Yn y trafodaethau hynny, cafodd y meysydd risg y cyfeirir atynt yn yr adroddiad uchod eu harchwilio a chytunwyd y byddid yn canolbwyntio yn bennaf ar y pynciau hyn ac y cânt eu monitro yn y cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir wrth i'r archwiliad fynd yn ei flaen. Felly, mae'r rheolwyr a'r gwasanaeth archwilio mewnol wedi ymateb i rai o'r materion a gododd wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon y llynedd ac mae cynlluniau i ddileu'r problemau hynny ac i wella'r broses yn gyffredinol wrthi'n cael ei datblygu. Er gwaethaf hyn, oherwydd y gofynion sy'n gysylltiedig â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, erys paratoi'r cofnodion yn her i'r Awdurdod, nid yn lleiaf oherwydd bod y gwaith eleni yn cyd-ddigwydd gyda chynnal prisiad llawn o asedau tir ac eiddo gyda gweithredu IFRS. Fodd bynnag, cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gan y rheolwyr ac archwilwyr allanol yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod diwethaf.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai diweddariad misol ar gyfer Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn ddefnyddiol yn ei farn ef ar y sail bod hi'n ofynnol yn y sefyllfa ddemocrataidd gyfredol i Gadeirydd Archwilio wneud sylwadau ar ran y Gwasanaeth Ariannol petai angen adnoddau ychwanegol i gwrdd â gofynion newydd ac i osgoi ailadrodd y problemau a gafwyd llynedd. Roedd y Pwyllgor yn cytuno gyda'r awgrymiad hwn.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad amlinellol uchod o'r Archwiliad Ariannol a nodi ei gynnwys.**
- **Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) roddi diweddariadau misol i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar baratoi'r cyfrifon.**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**